

POLISI DYRANNU – SAFLEOEDD CRWYDRIAID

1. Rhoddir ystyriaeth i geisiadau ffurfiol yn unig.
2. Bydd y rhestr yn agored i bobl sy'n byw yn Sir Benfro ar hyn o bryd heblaw:
 - a) Pobl o dan un ar bymtheg oed.
 - b) Pobl sy'n rhwym wrth reolaethau mewnfudo yng nghyd-destun Deddf Lloches a Mewnfudo 1996.
 - c) Tenantiaid blaenorol i'r Cyngor neu Gymdeithas Dai sy'n dal mewn dyled gyda'r rhent neu ddyledion eraill cysylltiedig â thenantiaethau blaenorol. Wrth weithredu'r polisi hwn, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau ariannol, cymdeithasol a meddygol yr ymgeisydd fel y bo'n briodol.
 - d) Bydd tenantiaid blaenorol sydd wedi eu troi allan gan y Cyngor neu ei ragflaenwyr o eiddo i'r Cyngor o dan Adran 84 o Ddeddf Tai 1985 (Seiliau 2, 3, 4 a 5 o Atodiad 2) neu Adrannau 144-6 o Ddeddf Tai 1996, neu'r rhai sydd wedi eu troi allan gan Gymdeithas Dai ar seiliau cyfwerth yn cael eu cadw oddi ar y rhestr am bum mlynedd wedi'r dyddiad y trowyd hwy allan. Wrth wneud cais am y gwaharddiad hwn bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau ariannol, cymdeithasol a meddygol yr ymgeisydd fel y bo'n briodol.
 - e) Ymgeiswyr sydd wedi gwrthod cynnig rhesymol o lain llai na 6 mis yn ôl.

Gwneir ceisiadau un ai i ddalwyr lleiniau presennol yn unol â thelerau Polisi Trosglwyddo Safle Crwydriaid y Cyngor neu i ddalwyr lleiniau newydd yn unol â System Bwyntiau Safle Crwydriaid y Cyngor mewn perthynas ag ymgeiswyr tro cyntaf.

Y SYSTEM BWYNTIAU RHESTR AROS

Wrth asesu ymgeiswyr ar gyfer eu cynnwys ar y rhestr aros, rhoddir ystyriaeth i'r ffactorau canlynol:

1. Rhybudd o Weithredu Statudol 20

Ymgeiswyr wedi cael rhybudd o neu wedi eu symud gan orchmynion prynu gorfodol, neu weithredu yn unol â deddfwriaeth tai neu gynllunio.

Sylwer: Ni fydd y pwyntiau hyn yn cael eu dyfarnu lle mae achos tresmasu yn erbyn yr ymgeisydd neu y mae'n meddiannu tir nad oes ganddynt hawl gyfreithiol i'w meddiannu.

2. Dim Darpariaethau Rhesymol ar Gael

(a)	Dim cyflenwad o ddŵr oer	10
(b)	Dim darpariaeth ar gyfer cyflenwad o ddŵr poeth	5
(c)	Dim toiled	5
(d)	Cyfleusterau paratoi bwyd annigonol:	
	dim sinc	5
	dim ffwrn	5
(e)	Dim basn golchi dwylo	5
(f)	Dim bath na chawod	10
(g)	Dim modd gwresogi	10
(h)	Dim cyflenwad o drydan	10

3. Rhannu Darpariaethau

(a)	Ymgeiswyr mewn oed ymddeol	
	(i) Amlfeddiannaeth	10
	(ii) Byw gyda theulu	5
(b)	Ymgeiswyr gyda phlant	10
(c)	Ymgeiswyr (parau) heb blant	
	(i) Amlfeddiannaeth	10
	(ii) Byw gyda theulu	5
(d)	Pobl sengl	
	(i) Amlfeddiannaeth	10
	(ii) Byw gyda theulu	5

Nodyn Eglurhaol:

I ddibenion y ffactor sgorio hwn, bydd plentyn yn cynnwys plentyn dibynnol hyd at 18 oed.

4. Gorboblogi

Dim digon o leiniau – fesul Llain 5

Nodyn Eglurhaol:

Mae angen lleiniau ar wahân ar gyfer pob uned deuluol.

5. Gwahanu Teulu 30

Aelodau teulu agosaf yr ymgeisydd yn cael eu gwahanu'n anochel. Yn cynnwys teulu, yn cynnwys parau priod sy'n gorfod byw mewn unedau preswyl ar wahân neu wahanu plant.

Nodyn Eglurhaol:

Bydd yr adran hon yn berthnasol yn unig i barau gyda neu heb blant sydd eisoes yn cydfyw amser y gwahanu. Ni fydd yn berthnasol i achosion lle mae plant mewn cartrefi cymunedol neu wedi'u maethu yn unol â deddfwriaeth plant a phobl ifanc.

6. Ansicrwydd deiliadaeth am resymau eraill 10

Ymgeiswyr sydd mewn llety gyda sicrwydd deiliadaeth gyfyngedig neu ddim. Dyfernir y pwyntiau hyn i ymgeiswyr sy'n rhannu llety gyda chyfeillion neu deulu.

7. Dyfarnu Pwyntiau ar Sail Feddygol 0 - 20

7.1 Gall Ymgynghorydd Meddygol y Cyngor ddyfarnu pwyntiau ychwanegol i bobl sy'n gwneud cais am lain, mewn perthynas â ffactorau meddygol sy'n bodoli eisoes os, yn ei farn ef, yw iechyd aelod o'r tyaid sy'n gwneud cais am gael ei ailgartrefu yn debygol o gael ei wella neu ei leddfu'n sylweddol, o ganlyniad i ddyfarnu llain iddo/iddi. Ni ellir dyfarnu pwyntiau meddygol i helpu teulu i symud yn agosach at berthynas sy'n dost.

7.2 Nid yw cyflwr y llety yn effeithio'n sylweddol ar bob cyflwr meddygol ac o ganlyniad nid yw bodolaeth salwch neu anabledd yn rheswm ohono'i hun dros ddyfarnu pwyntiau meddygol.

7.3 Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno hawlio pwyntiau ychwanegol ar seiliau meddygol lenwi adran briodol y ffurflen gais. Os nad yw'r ymgeisydd yn caniatáu i'r Ymgynghorydd Meddygol gysylltu â meddyg yr ymgeisydd, efallai ni fydd asesiad yn bosibl.

Mae'r Ymgynghorydd Meddygol yn seilio ei argymhellion ar yr wybodaeth a roddir ynghyd â gwybodaeth berthnasol leol a roddir gan weithwyr yr Adran Tai. Mae'r asesiad pwyntiau y mae'r Ymgynghorydd Meddygol yn ei roi yn gyfrinachol ac ni cheir ei drafod nac apelio yn ei erbyn. Ni fydd yr asesiad yn cynnwys unrhyw wybodaeth feddygol gyfrinachol.

8. Dyfarnu Pwyntiau ar Sail Gymdeithasol

Gellir dyfarnu pwyntiau er mwyn ystyried angen ymgeisydd am lain ar sail gymdeithasol. Dyfernir y pwyntiau hyn dim ond wedi atgyfeiriad ffurfiol gan dimau Gofal Cymdeithasol y Cyngor neu asiantaeth gydnabyddedig arall ac os yw cynllun gofal yr ymgeisydd yn dangos bod angen ystyriaeth arbennig.

Bydd yr atgyfeirio yn gofyn mynegiant o farn broffesiynol ynglŷn â sut a pham yr ystyrir bod angen arbennig ar unigolyn, gan ddefnyddio'r meini prawf penodedig canlynol:

(i)	Angen i gymorth statudol neu wirfoddol fod ar gael	5
(ii)	Mae'n gadael gofal	5
(iii)	Mae'n hen	5
(iv)	Mae ganddo/ganddi anawsterau dysgu	5
(v)	Mae ganddo/ganddi anabledd corfforol	5
(vi)	Mae ganddo/ganddi afiechyd y meddwl	5
(vii)	Angen cymorth o dan Ddeddf Plant 1989	5
(viii)	Angen cymorth oherwydd effeithiau trais neu aflonyddu neu fygythiadau o hynny.	5

Pan wneir yr atgyfeiriad, bydd y cynllun gofal yn dangos pa gymorth sydd i'w ddarparu ar gyfer yr ymgeisydd ac a oes anghenion cartrefu arbennig.

Os, wedi derbyn yr atgyfeiriad, y gwelir bod lleiniau neu safleoedd penodol o fudd i'r ymgeisydd, mae dyfarnu'r pwyntiau yn amodol ar dderbyn y llain neu'r safle a argymhellir. Os nad yw'n cael ei dderbyn, bydd y pwyntiau yn cael eu diystyru.

9. Maint y Teulu

Am bob aelod o uned deuluol 5

Sylwer: ar gyfer ymgeiswyr sy'n cynnwys menyw feichiog, dyfernir 5 pwynt ychwanegol.

10. Pwysoliad Sir Benfro

Pob ymgeisydd sydd wedi bod yn byw yn ardal weinyddol Sir Benfro am gyfnod o o leiaf 12 mis yn union cyn eu cais. 30

Sylwer: Ni ddyfernir y pwyntiau hyn i ymgeiswyr sydd wedi meddiannu tir yn anghyfreithlon yn ystod y cyfnod hwn.

Dyfernir pwyntiau ychwanegol i ymgeiswyr sydd wedi bod yn byw yn y Sir am 10 mlynedd neu ragor yn union cyn eu cais. 10

11. Amser ar y Rhestr Aros

Am bob hanner blwyddyn ar y Rhestr Aros (gyda mwyafswm o 20) 2

12. Cysylltiad gyda Safle 10

Dyfernir pwyntiau lle mae gan unigolyn deulu sy'n byw eisoes ar y safle y gwnaethpwyd cais amdano neu lle mae'r ymgeisydd wedi bod yn byw ar y safle hwnnw o'r blaen.

13. Dyraniadau Arbennig

Bydd y ffactor hwn yn cynnwys anghenion arbennig nad ydynt o dan adain y polisiâu ymgeisio arferol, e.e. dyrannu i grwpiau anghenion arbennig fel y rhai gydag anabledd meddyliol neu amhariad meddyliol, dyraniadau angenrheidiol er mwyn hwyluso datblygiadau tai neu amgylcheddol, dyraniadau sy'n fanteisiol i reolaeth dda ar safle. Mae'n rhaid i bob achos a ystyrir yn hyn o dan y ffactor hwn fod yn destun adroddiad ysgrifenedig manwl wedi ei baratoi gan Swyddog Tai ar gyfer ei ystyried gan y Prif Swyddog Tai (Gorfodi Tenantiaeth)

POLISI TROSGLWYDDO – SAFLEOEDD CRWYDRIAID

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall anghenion deiliaid eu lleiniau newid gyda newidiadau yn eu hamgylchiadau personol. Os yw maint y tyaid yn lleihau neu'n cynyddu, afiechyd cronig neu anabledd yn dechrau, neu newid gwaith/ysgol yn digwydd, fe allai hynny olygu bod lleoliad teulu yn peidio â bod yn addas i'w hanghenion cartrefu.

Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i geisiadau am drosglwyddo yn unol â'r polisi a'r amodau canlynol:-

Amodau Trosglwyddo

- A. Mewn amgylchiadau arferol, ni chaniateir trosglwyddo os yw ymgeisydd wedi bod yn byw ar lain am lai na 12 mis; fe allai'r amod hwn gael ei hepgor mewn achosion lle byddai gweithredu'r amod hwn yn arwain at broblemau meddygol neu gymdeithasol difrifol. Bydd angen dogfennau ategol cyn hepgor yr amod hwn.
- B. Ni chaniateir trosglwyddo os yw ymgeiswyr mewn dyled gyda'r rhent neu wedi torri amodau'r cytundeb. Wrth weithredu'r amod hwn, bydd y Cyngor yn ystyried amgylchiadau ariannol, cymdeithasol a meddygol yr ymgeisydd fel y bo'n briodol.

Y SYSTEM BWYNTIAU TROGLWYDDO

1. Gwahanu Teulu 30

Aelodau teulu agosaf yr ymgeisydd yn cael eu gwahanu'n anochel. Yn cynnwys teulu, yn cynnwys parau priod sy'n gorfod byw mewn unedau preswyl ar wahân neu wahanu plant.

2. Dyfarnu Pwyntiau ar Sail Gymdeithasol

Gellir dyfarnu pwyntiau er mwyn ystyried angen ymgeisydd am lain ar sail gymdeithasol. Dyfernir y pwyntiau hyn dim ond wedi atgyfeiriad ffurfiol gan dimau Gofal Cymdeithasol y Cyngor neu asiantaeth gydnabyddedig arall ac os yw cynllun gofal yr ymgeisydd yn dangos bod angen ystyriaeth arbennig.

Bydd yr atgyfeirio yn gofyn mynegiant o farn broffesiynol ynglŷn â sut a pham yr ystyrir bod angen arbennig ar unigolyn, gan ddefnyddio'r meini prawf penodedig canlynol:

(i)	Angen i gymorth statudol neu wirfoddol fod ar gael	5
(ii)	Mae'n gadael gofal	5
(iii)	Mae'n hen	5
(iv)	Mae ganddo/ganddi anawsterau dysgu	5
(v)	Mae ganddo/ganddi anabledd corfforol	5
(vi)	Mae ganddo/ganddi afiechyd y meddwl	5
(vii)	Angen cymorth o dan Ddeddf Plant 1989	5
(viii)	Angen cymorth oherwydd effeithiau trais neu aflonyddu neu fygythiadau o hynny.	5

Pan wneir yr atgyfeiriad, bydd y cynllun gofal yn dangos pa gymorth sydd i'w ddarparu ar gyfer yr ymgeisydd ac a oes anghenion cartrefu arbennig.

3. Dyfarnu Pwyntiau ar Sail Feddygol

3.1 Gall Ymgynghorydd Meddygol y Cyngor ddyfarnu pwyntiau ychwanegol i bobl sy'n gwneud cais am lain, mewn perthynas â ffactorau meddygol sy'n bodoli eisoes os, yn ei farn ef, yw iechyd aelod o'r tyaid sy'n gwneud cais am gael ei ailgartrefu yn debygol o gael ei wella neu ei leddfu'n sylweddol, o ganlyniad i ddyfarnu llain iddo/iddi. Ni ellir dyfarnu pwyntiau meddygol i helpu teulu i symud yn agosach at berthynas sy'n dost.

3.2 Nid yw cyflwr y llety yn effeithio'n sylweddol ar bob cyflwr meddygol ac o ganlyniad nid yw bodolaeth salwch neu anabledd yn rheswm ohono'i hun dros ddyfarnu pwyntiau meddygol.

3.3 Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno hawlio pwyntiau ychwanegol ar seiliau meddygol lenwi adran briodol y ffurflen gais. Os nad yw'r ymgeisydd yn caniatáu i'r Ymgynghorydd Meddygol gysylltu â meddyg yr ymgeisydd efallai ni fydd asesiad yn bosibl.

Mae'r Ymgynghorydd Meddygol yn seilio ei argymhellion ar yr wybodaeth a roddir ynghyd â gwybodaeth berthnasol leol a roddir gan weithwyr yr Adran Tai. Mae'r asesiad pwyntiau y mae'r Ymgynghorydd Meddygol yn ei roi yn gyfrinachol ac ni cheir ei drafod nac apelio yn ei erbyn. Ni fydd yr asesiad yn cynnwys unrhyw wybodaeth feddygol gyfrinachol.

4 Cysylltiad gyda Safle 10

Dyfernir pwyntiau lle mae gan unigolyn deulu'n byw eisoes ar y safle y gwnaethpwyd cais amdano neu os yw'r ymgeisydd wedi bod yn byw ar y safle o'r blaen.

5 Amser ar y Rhestr Aros

Am bob blwyddyn ar y rhestr aros (gyda mwyafrwm o 15) 3

6 Dyraniadau Arbennig

Bydd y ffactor hwn yn cynnwys anghenion arbennig nad ydynt o dan adain y polisiau ymgeisio arferol, e.e. dyrannu i grwpiau anghenion arbennig fel y rhai gydag anabled meddyliol neu amhariad meddyliol, dyraniadau angenrheidiol er mwyn hwyluso datblygiadau tai neu amgylcheddol, dyraniadau sy'n fanteisiol i reolaeth dda ar safle. Mae'n rhaid i bob achos a ystyrir yn hyn o dan y ffactor hwn fod yn destun adroddiad ysgrifenedig manwl wedi ei baratoi gan y Swyddog Cyswllt Safleoedd Sipsiwn ar gyfer ystyriaeth y Swyddog Strategaeth.

DYRANNU LLEINIAU

Gwneir dyraniadau i'r ymgeisydd gyda'r nifer fwyaf o bwyntiau ar y rhestr a ddewisir. Os bydd gan ddau neu ragor o ymgeiswyr yr un pwyntiau gwneir y dyraniad i'r ymgeisydd y derbyniwyd ei gais gyntaf.

Cosbau

Os bydd ymgeiswyr sy'n gwrthod cynnig rhesymol o lain, bydd eu cais yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr aros ac ni fydd ganddynt yr hawl i wneud ail gais am 6 mis.

Mae cynnig yn un rhesymol: -

- a) Pan yw'n diwallu anghenion hanfodol y tyaid (nid eu dewis cyntaf o angenrheidrwydd)
- b) Y mae ar y safle y mae'r ymgeisydd wedi ei ddewis.
- c) Mae cyfleusterau addas gan y safle.
- d) Ni fyddai lleoliad y llain yn gosod yr ymgeisydd neu aelod o'i deulu/ei theulu men perygl o drais neu aflonyddu ac, os digwydd hynny, bod tystiolaeth ddogfennol ar gael i gadarnhau hynny.
- e) Mae'r llain yn arbennig o addas i anghenion meddygol yr ymgeisydd.

Sylwer: Mewn achosion o galedi cymdeithasol difrifol gall y Prif Swyddog Tai (Gorfodi Tenantiaeth) benderfynu peidio â gosod cosbau amser. Dim ond ar sail tystiolaeth ysgrifenedig wedi ei pharatoi gan Swyddog Tai neu drwy argymhellion asiantaethau/adrannau eraill y gellir ystyried ceisiadau o'r fath.

Gweithdrefnau Apelio

Os yw ymgeiswyr o'r farn bod eu cais wedi ei ystyried yn anghywir neu fod eu cais wedi ei wahardd neu ei ddileu oddi ar y rhestr yn amhriodol, dylent drafod y mater gyda Swyddog Tai er mwyn datrys y mater yn anffurfiol.

Os bydd y mater yn parhau i fod heb ei ddatrys gall yr ymgeisydd, neu rywun arall ar ei ran, ofyn am gael adolygu eu cais. Bydd yr adolygiad yn cael ei wneud gan y Prif Swyddog Tai (Gorfodi Tenantiaeth), a bydd ei benderfyniad ef / ei phenderfyniad hi yn derfynol.

DIGARTREFEDD

Mae'r Cyngor o dan orfodaeth gyfreithiol i sicrhau llety ar gyfer rhai ymgeiswyr yr ystyrir eu bod yn ddigartref neu o dan fygythiad o fod yn ddigartref ac nad oes ar eu cyfer unrhyw lety addas arall. Yr ymgeiswyr y gallai'r ddyletswydd hon fod yn berthnasol iddynt yw:-

- 1 Rhywun gyda phlant dibynnol sy'n byw gyda hwy neu y gellir disgwyl iddynt fyw gyda nhw.
- 2 Menyw sy'n feichiog, ynghyd ag unrhyw berson y byddai'n rhesymol disgwyl iddi fyw gyda nhw.
- 3 Rhywun sy'n agored i niwed oherwydd henoed, salwch neu anfantais feddylol, anabledd corfforol neu reswm arbennig arall neu rywun sy'n byw gyda rhywun sy'n agored i niwed.
- 4 Rhywun sydd wedi colli ei gartref o ganlyniad i argyfwng fel tân, llifogydd neu drychineb arall.

Bydd ymgeiswyr digartref a dderbynnir yn cael eu hailgartrefu yn gyntaf mewn llety dros dro. Yna bydd y cais yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r meini prawf yng Nghynllun Dyrannu Tai'r Cyngor a bydd yn cael ei ddodi ar y gofrestr gyda'r bandio sy'n briodol i'r amgylchiadau unigol.

Dylai ymgeiswyr sy'n ystyried eu hunain yn ddigartref neu'n debygol o fod cyn bo hir, drafod eu hamgylchiadau gyda'r staff mewn Swyddfa Tai Rhanbarthol.

Sylwer Nid yw derbyn dyletswydd i gynorthwyo ymgeisydd digartref yn golygu bod rhaid i'r Cyngor ddarparu tenantiaeth sicr.

CRYNODEB O'R POLISI DYRANNU – SAFLEOEDD CRWYDRIAID

Mae hyn yn cynnig arweiniad byr i Restr Aros y Cyngor a'r modd y mae'r Cyngor yn dyrannu ei leiniau. Mae rhagor o fanylion ar gael os gofynnir.

Pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais? – Yn gyffredinol

- Pobl o dan 16 oed
- Pobl o dan reolaeth mewnfudo
- Tenantiaid neu ddeiliaid lleiniau blaenorol gyda dyledion ar eu tai
- Tenantiaid neu ddeiliaid lleiniau blaenorol sydd wedi eu troi allan am fod mewn dyled gyda'r rhent neu niwsans llai na phum mlynedd yn ôl.

Beth ga'i bwyntiau amdano?

1	Gofynnwyd i chi adael trwy orchmynion cyfreithiol arbennig	20
2	Ddim yn gallu defnyddio cyfleusterau arbennig	0-65
3	Rhannu cyfleusterau	0-10
4	Gorboblogi	5 am bob llain sydd ei hangen
5	Os yw eich teulu wedi gwahanu	30
6	Byw mewn amgylchiadau ansicr	10
7	Mae gennych chi broblemau meddygol y mae'r lle'r ydych chi'n byw ynddo yn effeithio arnynt	0-20
8	Angen cymdeithasol am lety	0-40
9	Ar gyfer pob aelod o'ch teulu	5 i bob aelod o'r teulu
10	Byw yn Sir Benfro	0-40
11	Yr amser rydych chi wedi bod ar y rhestr aros	0-20
12	Cysylltiad gyda'r safle	10

Beth ga'i bwyntiau amdano os ydw i'n byw eisoes ar safle ac eisiau symud?

1	Os yw eich teulu wedi gwahanu	30
2	Angen cymdeithasol am symud	0-40
3	Problemau meddygol y mae'r lle'r ydych chi'n byw ynddo yn effeithio arnynt	0-20
4	Cysylltiad gyda'r safle	10
5	Yr amser rydych chi wedi bod ar y rhestr aros	0-15

Beth os ydw i am gyfnewid fy llain gyda rhywun arall?

Mae'n rhaid i chi wneud cais i'r Cyngor am ganiatâd, yna bydd eich cais yn cael ystyriaeth. Ni fydd y Cyngor yn gwrthod heb reswm da.

Beth os ydw i am symud bant?

Bydd rhaid i chi gysylltu gyda Chyngor yr ardal yr ydych chi am fynd i fyw ynddi er mwyn cael ffurflen gais i fynd ar eu Cofrestr Dai.

Beth os ydw i'n ddigartref?

Os ydych chi'n ddigartref neu'n meddwl y gallech chi fod, dylech wneud apwyntiad yn y Swyddfa Tai Rhanbarthol ar unwaith. Disgwylir i'r Cyngor helpu gwahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar:-

- 1 A oes plant gennych chi, a ydych yn feichiog, neu os yw'n anodd i chi gael llety oherwydd pethau fel eich oedran neu eich iechyd.
- 2 A ydych chi wedi gwneud eich hun yn ddigartref.
- 3 A oes gennych chi gysylltiad gyda Sir Benfro.

Bydd y Cyngor yn ceisio yn gyntaf eich helpu chi i gadw eich cartref, ond os nad oes modd gwneud hyn, byddant yn eich helpu chi i ddod o hyd i lety arall a byddant yn doddi eich enw ar y gofrestr dai ar gyfer llety mwy parhaol.

Sut ydw i'n gwneud cais?

Mae ffurflenni cais ar gael gan Ganolfannau Cyswllt Cwsmer y Cyngor. Dylech lenwi'r ffurflen a'i rhoi i Swyddog Tai.

Bydd eich cais yn cael ei gofrestru ar gyfer y safle yr ydych chi wedi gofyn amdano a bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i chi sawl pwynt sydd gyda chi a sut y mae hyn yn cymharu gyda'r ymgeisydd ar ben y rhestr.

Os bydd unrhyw beth ynglŷn â'ch cais yn newid mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor.

Faint o amser fydd rhaid i mi aros cyn cael cynnig?

Yn anffodus nid yw'r Cyngor yn gallu rhoi syniad pendant i chi o bryd y cewch chi gynnig oherwydd bod y rhestr aros yn newid o hyd wrth i bobl wneud cais neu wrth i leiniau gael eu dyrannu i eraill. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gallu rhoi gwybod i chi unrhyw amser pa bwyntiau sydd gennych chi a sut mae'r rhain yn cymharu gyda phen y rhestr.

Beth sy'n digwydd os caf gynnig llain ond ddim eisiau ei derbyn?

Os ydych chi am wrthod mae'n rhaid i chi ddweud pam wrthym ni. Os ydych yn gwrthod am reswm rhesymol bydd eich cais yn aros ar y rhestr aros hyd nes bydd modd gwneud cynnig arall. Os nad ydych yn gwrthod am reswm rhesymol, bydd eich cais yn cael ei ddileu oddi ar y rhestr aros ac os bydd arnoch chi eisiau gwneud cais eto gallwch wneud hynny wedi chwe mis.

Os nad ydw i'n cytuno gyda'm pwyntiau, yn cael fy nhynnu oddi ar y rhestr aros neu heb gael fy nodi arno yn y lle cyntaf, beth allaf ei wneud?

Dylech drafod y mater yn gyntaf gyda Swyddog Tai er mwyn datrys y mater yn anffurfiol.

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, gallwch chi, neu rywun arall ar eich rhan, ofyn am adolygiad o'ch cais. Bydd yr adolygiad yn cael ei wneud gan y Prif Swyddog Tai (Gorfodi Tenantiaeth) a bydd ei benderfyniad / ei phenderfyniad yn derfynol.